



Canllaw byr: Canllawiau ar gyfer y Gweithlu Proffesiynau Perthynol i lechyd mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol: Egwyddorion craidd i sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r gweithlu

1. Crynodeb Gweithredol

Clefyd y coronafeirws 2019 (COVID-19) yw'r her fwyaf y mae'r system iechyd a gofal wedi'i hwynebu o fewn cof ac mae'n cael effaith aruthrol ar fywydau pob un ohonom. Mae pobl yn fwyfwy agored i niwed ac mae ganddynt fwy o anghenion. Felly, mae'n hollbwysig bod y gwasanaethau adfer ac adsefydlu ar hyd a lled Cymru wedi'u hymgorffori yn y gymuned, ac yn gweithredu fel system gyfan.

Rhaid cael ffocws ar gydweithio a gwytnwch cymunedol. Dylid trefnu hyn ar gyfer yr anghenion a gyflwynir gan ein poblogaeth ac ystyried effaith eu bywydau a'r canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn elfen hollbwysig o ddatblygu modelau a thimau sy'n darparu gofal o'r ansawdd uchaf ac sy'n gwella canlyniadau iechyd. Mae eu harbenigedd yn hollbwysig er mwyn lleihau'r orddibyniaeth ar ofal mewn ysbytai ac ymyriadau proffesiynol.

Mae sgiliau Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn cefnogi dull llwybr system gyfan ataliol a rhagweithiol o ddarparu gwasanaethau adfer ac adsefydlu, sy'n blaenoriaethu gwasanaethau yn neu'n agos at y cartref ac mae'n galluogi dinasyddion ar draws Cymru i fyw mor annibynnol â phosibl cyhyd ag y bo modd.

Mae'n hollbwysig gwneud y defnydd gorau o'r hyn sydd gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd i'w gynnig a mynediad at y Gweithwyr hyn ar draws y maes Gofal Sylfaenol a Chymunedol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion disgwylidig pobl neu anghenion nad ydynt wedi'u diwallu.

Mae angen egwyddorion craidd ar gyfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd er mwyn gallu gwireddu'r uchelgais hon. Rhaid i'r rhain sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng datrysiadau rhanbarthol sy'n mynd i'r afael â chymhlethdod yr angen (y mae angen eu cynllunio a'u trefnu'n effeithiol dros ardal fwy na 'lle'), a datrysiadau ac arloesi lleol sy'n lleihau amrywiadau.

Mae'r canllaw hwn gan [y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol](#) (Rhaglen Strategol) yn alwad i'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn ei chyfanwydd weithredu'r egwyddorion craidd hyn a argymhellir er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu proffesiynol perthynol i iechyd. Maent yn berthnasol i glinigwyr, rheolwyr ac arweinwyr gwasanaethau a phawb arall sy'n gysylltiedig â chynllunio a darparu gwasanaethau clinigol.

Wedi'u halinio â Strategaethau a Chanllawiau Cenedlaethol, mae'r canllawiau hyn yn benllanw misoedd lawer o waith ymgysylltu a thrafod helaeth gyda'r holl randdeiliaid. Gwna ddefnydd o'r hyn a ddysgwyd yn y gorffennol a'r presennol i ddisgrifio sut y gallai gwneud defnydd gwell o wybodaeth a sgiliau unigryw Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd gefnogi Gofal Sylfaenol a Chymunedol i ddarparu system gyfan ar gyfer adferiad a'r math o wasanaethau sy'n bwysig i bobl.

Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn wynebu heriau sylweddol yn nhermau staff sy'n meddu ar y capasiti a'r sgiliau i reoli'r galw cynyddol ar draws pob maes. Heb ddefnydd clir a chyson o ganllawiau ar gyfer cynllunio'r gweithlu, mae risg fawr y bydd Cymru'n creu 'marchnad fewnol' lle mae sefydliadau'n cystadlu i gyflogi gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd medrus iawn sy'n gyfyngedig o ran eu nifer. Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r heriau ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â nhw.

Rydym yn awyddus i gael gweithlu proffesiynau perthynol i iechyd o'r maint cywir yng Nghymru, sy'n meddu ar y sgiliau cywir, wedi'u trefnu yn y ffordd gywir ac sy'n cyflenwi gwasanaethau sy'n darparu'r gofal gorau posibl i'n poblogaeth. Mae'r canllaw hwn a'i argymhellion yn paratoi'r ffordd i ni gyflawni hyn.

2. Canfyddiadau Allweddol

Yng Nghymru, y Proffesiynau Perthynol i Iechyd yw'r 13 proffesiwn unigol sy'n cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.¹

Mae gan bob Proffesiwn Perthynol i Iechyd rôl o ran cyflawni uchelgais Cymru Iachach mewn perthynas â'r Model Gofal Sylfaenol.

Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn gweithio gyda phobl o bob oed, o'u genedigaeth hyd ddiwedd oes, yn eu grymuso a'u galluogi i reoli eu llesiant eu hunain ac atal neu leihau effaith salwch ac anabledd seicolegol a chorfforol.

Mae ganddynt brofiad o ehangu eu cynnig clinigol (e.e. therapïau pigiad a phresgripsiynu annibynnol) ac mae cynigion i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd gael mynediad mwy effeithlon ac ymatebol i feddyginiaethau yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Mae set sgiliau'r gweithwyr hyn yn ymgorffori iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, sy'n eu galluogi i ganolbwyntio ar waith atal ac ymyrraeth gynnar. Gallant gefnogi pobl i wneud penderfyniadau ynghylch gofalu amdanynt eu hunain a pharhau i fyw'n annibynnol a sicrhau bod ganddynt fynediad amserol at y gweithiwr proffesiynol neu'r gwasanaeth gorau i ddiwallu eu hanghenion penodol.

Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn elfen hollbwysig o'r gwaith o ddatblygu modelau a thimau i ddarparu gofal o'r ansawdd uchaf a gwella canlyniadau iechyd. Maent yn cefnogi'r trawsnewidiad angenrheidiol i system o 'llesiant' sy'n ceisio cefnogi a rhagweld anghenion iechyd, er mwyn atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael.

Enghreifftiau o ddefnyddio'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd a thrawsnewid eu Gwasanaethau

Model Sifftiau ar Batrwm Cylch ar gyfer Uwch Ymarferydd Parafeddygol

Mae'r model Sifftiau ar Batrwm Cylch ar gyfer Uwch Ymarferydd Parafeddygol Pacesetter 3 yn ymgorffori Gofal Sylfaenol, Canolfan Cyswllt Clinigol ac Ymateb Unigol. Mae elfen gofal sylfaenol y patrwm cylch yn golygu bod pob Uwch Ymarferydd Parafeddygol yn treulio dau ddiwrnod yr wythnos mewn practis cyffredinol. Mae'r prosiect yn nodi gwerth ac effaith y model patrwm cylch ar draws pob lleoliad, yn ogystal â ffyrdd y gellir integreiddio Uwch Ymarferwyr Parafeddygol yn y Tîm Gofal Sylfaenol ehangach er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u cynnig a'u set sgiliau er mwyn i'n poblogaeth gael y gofal gorau posibl.

Therapi Iaith a Lleferydd Cyn Ysgol

Mae'r Llwybr Ataliol Therapi Iaith a Lleferydd cyn ysgol hwn sydd wedi ennill gwobrau yn hyrwyddo parodrwydd ar gyfer mynd i'r ysgol drwy gynyddu gwybodaeth rhieni a gofalwyr er mwyn sicrhau bod unrhyw anawsterau cyfathrebu iaith a lleferydd yn cael eu hadnabod yn gynharach. Cynhelir sesiynau 'sgwrsio' wythnosol ym mhob clwstwr gofal sylfaenol. Yma gall rhieni neu ofalwyr gael mynediad at Therapydd Iaith a Lleferydd cofrestredig heb orfod cael atgyfeiriad, sy'n rhoi cyfle iddynt siarad gyda gweithiwr proffesiynol yn uniongyrchol am eu pryderon ynghylch eu plant.

Mae'r gwasanaeth wedi cael canmoliaeth uchel, gyda'r canlyniadau'n dangos bod pryderon rhieni yn derbyn sylw amserol ac nid oes angen uwchgyfeirio 50% o'r plant at wasanaethau mwy arbenigol.

¹ Proffesiynau Perthynol i Iechyd: therapyddion celf, therapyddion drama, therapyddion cerddoriaeth, podiatryddion, dietegwyr, therapyddion galwedigaethol, orthoptyddion, prosthetwyr, orthotyddion, parafeddygon, ffisiotherapyddion, therapyddion iaith a lleferydd, seicolegwyr.

O ganlyniad, y weledigaeth hirdymor yw mai Gofal Sylfaenol a Chymunedol fydd y cyd-destun ymarfer safonol ar gyfer cyfran sylweddol o'r Gweithlu Proffesiynol Perthynol i Iechyd, gyda'r ystod lawn o lefelau ymarferwyr.

Yn gadarnhaol, mae enghreifftiau o ymarfer sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n cael eu hargymell yn nhermau defnyddio gweithlu'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd a thrawsnewid y Gwasanaeth hwn mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol ar hyd a lled Cymru, gyda modelau mynediad uniongyrchol mewn Gofal Sylfaenol fel rhan o gontinwmm y ddarpariaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd, fel rhan o'r cynnig amlbroffesiwn ar draws Gofal Sylfaenol a Chymunedol, gwella mynediad at ddiagnosis a thriniaeth gynnar, datblygu capasiti, lliniaru pwysau ar y gweithlu, llenwi bylchau yn y gweithlu, ategu Ymarferwyr Cyffredinol a helpu i gyflawni canlyniadau sy'n bwysig i bobl.

Ymyrraeth Byr Deietetig â Sicrwydd Ansawdd: Cyn-Diabetes

Mae'r prosiect Ymyrraeth Byr â Sicrwydd Ansawdd Cyn Diabetes yn darparu dull wedi'i dargedu i atal diabetes math 2 yng Nghymru drwy ddefnyddio ymyrraeth fer sy'n defnyddio gweithlu anghofrestredig gofal sylfaenol, sydd wedi'u hyfforddi gan Ddiategwyr cofrestredig mewn cwrs Sgiliau Maeth am Oes, gyda'r Dietegydd yn darparu cefnogaeth a sicrwydd ansawdd rheolaidd. Mae'r ymyrraeth hon wedi cael ei chymeradwyo gan Grŵp Gweithredu Diabetes Cymru Gyfan (AWDIG) ac mae wedi'i phennu fel blaenoriaeth yng ngghynllun gweithredu Pwysau Iach: Cymru Iach Llywodraeth Cymru. Mae'n darparu'r sail i Raglen Atal Diabetes Cymru Gyfan oherwydd ei chanlyniadau trawiadol a'i defnydd darbodus o adnoddau Deietetig a'i gallu i dyfu yn unol â'r anghenion.

Rhagor o enghreifftiau o ddefnyddio'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Thrawsnewid eu Gwasanaethau

Mynediad uniongyrchol at Bodiateg

Gyda'r galw am wasanaethau Podiatreg yn cynyddu, amseroedd aros hwy, a modelau atgyfeirio traddodiadol sydd wedi dyddio, gyda 42% ohonynt yn amhriodol, mae'r model hwn sydd wedi'i ailgynllunio, ac sydd wedi ennill gwobrau, yn darparu mynediad agored at gymorth Podiatreg ar y pwynt ble mae ei angen fwyaf. Defnyddir dull cydgynhyrchu er mwyn annog hunan-reolaeth ac annog ymddygiad iach, a lleihau ymyriadau meddygol diangen, gan gynnwys presgripsiynau gwrthfotigau. O fewn cyfnod o 3 mis, bron i 700 o bresgripsiynau y gellir bod wedi'u hosgoi. Mae mynediad uniongyrchol wedi cynyddu i 87% o geisiadau newydd am gymorth Podiatreg gydag un person yn datgan, "Ni allaf gredu bod pobl yn gallu cerdded i mewn i'ch gweld chi. Roeddwn i'n credu mai dim ond yn Harley Street yr oedd y math yma o wasanaeth ar gael."

Clinigau Galwedigaethol wedi'u harwain gan Therapi Galwedigaethol

Therapyddion Galwedigaethol yn arddangos clinigau Galwedigaethol wedi'u harwain gan Therapi Galwedigaethol a gynlluniwyd i helpu pobl â chyflyrau iechyd meddwl a chyhyrsgerbydol i barhau yn eu gwaith. Yn y clinigau gwelwyd y Therapyddion Galwedigaethol yn defnyddio Adroddiad Iechyd a Gwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd, ac yn gweithio gyda phobl i ddarparu cyngor personol, wedi'i deilwra am iechyd a gwaith er mwyn canfod datrysiad iddynt barhau neu ddychwelyd i'r gwaith. Yn ystod cyfnod yr astudiaeth gychwynnol yn benodol, gostyngodd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch o 71% i 15% a lleihaodd y defnydd o nodiadau 'ffitrwydd' gan feddygon teulu o 76% i 6%. Mae'n dangos bod Therapyddion Galwedigaethol eisoes yn meddu ar y sgiliau i ddarparu'r cyngor a'r cymorth hwn fel rhan o'r cynnig gofal sylfaenol amlbroffesiwn, ac yn darparu dull amgen credadwy i opsiynau presennol nodyn Ffitrwydd Meddyg Teulu neu adael y gweithle.

Ffisiotherapi

Ffisiotherapi yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf i bobl ag ystod o gyflyrau, gan gynnwys cyflyrau cyhyrsgerbydol (MSK), niwrolegol ac anadlol. Mae Grŵp Cyngori Arweinwyr Ffisiotherapi Cymru (WPhLAG) yn cydweithio ar draws Cymru a gyda'u partneriaid ehangach i ddatblygu cynnig ymarferwyr Ffisiotherapi sy'n canolbwyntio ar ddatblygu rolau, buddion amlwg, boddhad defnyddwyr, trawsnewid llwybrau, hyfforddiant ac addysg. Yn cyfrannu at y werthusiad sylweddol i ddangos y buddion enfawr i'n poblogaeth a'r system yn sgil rôl Ffisiotherapi, pan fydd yn rhan o lwybr integredig ar gyfer cyflyrau cyhyrsgerbydol.

3. Themâu Allweddol

Datgelodd dadansoddiad o'r ystod eang o ymgysylltu a thrafodaeth arwyddocaol gydag ystod amrywiol o randdeiliaid y deuddeg thema ganlynol:

1. Llwybrau darniog a phobl yn gweithio mewn seilos ar draws lleoliadau
2. Cyllid ad hoc, amrywiad mewn modelau ymarfer a mynediad a defnydd anghyfartal o adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd
3. Dealltwriaeth wael o set sgiliau Proffesiynau Perthynol i Iechyd
4. Diffyg cyfatebiaeth rhwng y rolau a'r set sgiliau ac anghenion y boblogaeth
5. Ffrydiau cyllido hanesyddol llwybr diagnostig gofal eilaidd Proffesiynau Perthynol i Iechyd, sy'n creu anghydraddoldeb a rhwystrau at lwybrau mwy integredig
6. Blaenoriaethau'n cystadlu am adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd ar draws [4 prif grŵp y boblogaeth](#) yn nhermau ailosod ac adfer
7. Absenoldeb cynrychiolaeth weithredol a chadarn gan arweinwyr Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn prosesau cynllunio a chyflawni cydweithredol ar lefel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac Ardal / Clwstwr Cyfan
8. Natur gymhleth yr angen, y gellir ond cynllunio a threfnu'n effeithiol ar ei gyfer drwy gontinwrm darpariaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd dros ardal sy'n fwy na 'lle'

Adborth gan randdeiliaid

“Mae'n rhaid i ni gydbwysu amrywiaeth y disgyblaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd sy'n cael eu defnyddio yn erbyn y gyllideb sydd ar gael a'r adnoddau ar gyfer pob disgyblaeth.”

“Mae secondiadau wedi dod i ben, er gwaethaf y canlyniadau gwych o ran effaith ar y system gyfan, nid dyma lle yr ydym ni yn awr.”

“Nid oes gwybodaeth ddigonol am beth y gall y rolau hyn ei gynnig, y tu hwnt i'r hyn sy'n hysbys mewn rolau gofal eilaidd. Mae practis cyffredinol yn aml yn galw am ffordd wahanol o weithio. Rydym wedi ystyried parafeddyg ond yn deall bod angen i WAST eu cadw ac maent hefyd yn ansicr a yw ein rhestr cleifion yn ddigon mawr i sicrhau y byddai parafeddyg wedi'i gyflogi'n uniongyrchol yn ymarferol i ni.”

“Mae canfod cyllid wedi bod yn anodd a dyma yw'r prif rwystr rhag datblygu hyn, yn ogystal â gwerthfawrogiad gan gydweithwyr Ymarferwyr Cyffredinol o'r rôl a'r posibiladau yn y lleoliad hwn, a'r gwerth a'r effaith y gall y proffesiwn ei gyfrannu.”

“Mae angen i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd gydweithio i gefnogi ei gilydd i sicrhau cydnabyddiaeth gyfartal, a'r gallu i fodloni anghenion cleifion a'r boblogaeth mewn gofal sylfaenol gydag ystod o sgiliau ac ymarfer.”

9. Cyfleoedd cyllid trawsnewid tymor byr sy'n arwain at:

- Cystadleuaeth ymrannol am adnoddau Proffesiynau Perthynol i lechyd
- Modelau cyflogaeth uniongyrchol a gwrthgyferbyniol
- Y gallu i arloesi a thrawsnewid yn cael ei gyfaddawdu
- Canlyniadau'n cael eu penderfynu gan ffynonellau cyllid a strategaeth ymadael

10. Mae modelau tîm sy'n cael eu datblygu yn seiliedig ar:

- Anhawster wrth geisio cael mynediad at gymorth Proffesiynau Perthynol i lechyd
- Datblygiad llwybr Gofal Sylfaenol ar wahân
- Canolbwyntio ar arbenigedd ac uwch ymarferwyr clinigol yn hytrach nag ar drawsnewidiad ehangach y continwmm o ddarpariaeth gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i lechyd
- Canolbwyntio ar leoliad, darparu'r un gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i lechyd mewn lleoliadau newydd yn hytrach na thrawsnewid gweithgarwch a defnydd

11. Risgiau'r trefniadau cyflogaeth presennol:

- Cystadleuaeth ymrannol am adnoddau Proffesiynau Perthynol i lechyd
- Modelau cyflogaeth uniongyrchol a gwrthgyferbyniol
- Materion yn ymwneud â llywodraethu
- Diffyg cyfatebiaeth rhwng y defnydd o Broffesiynau Perthynol i lechyd ag anghenion y boblogaeth
- Absenoldeb trefniadau ymarferol i ddatblygu'r gweithlu, symudedd gyrfa a dulliau rheoli o ddydd i ddydd, er enghraifft staff llanw yn ystod gwyliau ac absenoldebau

12. Absenoldeb trefniadau ymarferol i ddatblygu'r gweithlu

“Mae cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o rôl y Proffesiynau Perthynol i lechyd wedi bod yn ffactor arwyddocaol er mwyn deall ein gwerth. Mae Ymarferwyr Cyffredinol yn deall yn awr bod ymarferydd ymreolaethol, cymwys yn gallu cyfrannu diagnosis gwahanol i gleifion, darparu'r gofal cywir ar yr adeg gywir a datrys argyfyngau gan ddefnyddio sgiliau amrywiol.”


Mae holl gyflogeion byrddau iechyd yn dilyn y broses lywodraethu; fodd bynnag, mae yna nifer o ymarferwyr preifat o fewn y clystyrau ac mae'r trefniadau llywodraethu'n aneglur.”

“Mae datblygu rôl a gwasanaeth yn anodd iawn (os nad yn amhosibl) pan nad yw'r cyllid yn barhaol. Er enghraifft, rydym eisiau mentora myfyrwyr, rhai ar leoliadau blwyddyn 2, ond mae cyllid ar sail system ymgeisio o flwyddyn i flwyddyn yn ei gwneud yn anodd iawn ac felly mae cyrff addysgol yn amharod i anfon myfyrwyr atom.”

“Mae adnoddau cyfyngedig wedi cyfyngu'r nifer o staff y gellir eu cyflogi ac mae argaeledd gweithlu proffesiynol i weithio yn y swyddi yn broblem, oherwydd y galw cynyddol am swyddi tebyg ar draws Cymru. Mae amserlen tymor byr y Gronfa Trawsnewid yn cymhlethu hyn, yn ogystal â'r disgwyliad i weithredu a chyflawni canlyniadau.”

4. Argymhellion Allweddol

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar werth Proffesiynau Perthynol i Iechyd, mae angen i arweinwyr systemau sicrhau'r canlynol:



5. Camau Gweithredu Allweddol

Mae'r adran isod yn cyflwyno'r camau gweithredu y mae angen i arweinwyr system eu cyflawni er mwyn gwneud y defnydd gorau o Broffesiynau Perthynol i Iechyd:

Y Camau Gweithredu sydd eu hangen er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r cynnig Proffesiynau Perthynol i Iechyd

Dull Llwybr System Gyfan

Arweinwyr y system i ddod ynghyd i oresgyn y rhwystrau sy'n atal y defnydd gorau o Broffesiynau Perthynol i Iechyd, darparu arweiniad cydlynu i raddfa er mwyn gallu canolbwyntio mwy ar:

- Gwasanaeth iechyd a llesiant di-dor
- Gwasanaethau adfer ac adsefydlu yn y gymuned ac sy'n gweithredu fel gwasanaeth cyflawn
- Datblygu a chefnogi strategaeth 'un gweithlu'
- Defnydd mwy effeithiol o adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd gan gynnwys cymorth clinigol a gwasanaethau corfforaethol
- Mesur canlyniadau iechyd a llesiant sy'n bwysig i bobl
- Gwneud y defnydd gorau o set sgiliau Proffesiynau Perthynol i Iechyd er mwyn cyflawni canlyniadau gwell a gwerth gwell i gyflawni angen y boblogaeth yn hytrach na galw
- Gwella iechyd y boblogaeth
- Cefnogi pobl i wneud penderfyniadau ynghylch gofalu amdanynt eu hunain a pharhau i fyw'n annibynnol

Gweithgarwch Proffesiynau Perthynol i Iechyd i'w drefnu ar draws ardaloedd daearyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Cydnabod y bydd y gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn dod o wahanol sefydliadau o fewn ôl-troed daearyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, mae gofyniad i arweinwyr system:

- Cydweithio rhwng darparwyr ar ôl-troed mwy er mwyn galluogi unfurfiaeth a dull cydgysylltiedig gyda gwaith cynllunio lleol ar sail Ardal / ar draws Clwstwr a chyflawni yn seiliedig ar angen ac amrywiaeth
- Darparu'r cydbwysedd cywir rhwng datrysiadau rhanbarthol a chyflawni natur gymhleth yr angen (y mae angen ei gynllunio a'i drefnu'n effeithiol ar draws ardal fwy na 'lle'), ochr yn ochr â datrysiadau ac arloesedd lleol, sy'n lleihau amrywiaeth

Cysoni ffrydiau ariannu drwy lens y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Model Gofal Sylfaenol

Mae angen i arweinwyr system wneud gwaith cynllunio rhanbarthol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid y tu hwnt i'w ffiniau sefydliadol traddodiadol.

Mae hyn yn hollbwysig er mwyn siapio defnydd cynaliadwy o Broffesiynau Perthynol i Iechyd a fydd yn galluogi:

- Blaenoriaethu capasiti a modelau cyflawni er mwyn cyflawni angen y boblogaeth
- Dyrannu adnoddau i ymyriadau gwerth uwch

Arweinyddiaeth gryfach ar y Proffesiynau Perthynol i Iechyd ar draws y system gyfan

Mae gofyniad i arweinyddiaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd fod ar sail system gyfan, yn gyfredol, wedi'i hatgyfnerthu, ei chefnogi a'i datblygu: mae hyn yn hollbwysig er mwyn

cefnogi penderfyniadau ar y cyd, llywio blaenoriaethau a dyrannu adnoddau'n ddarbodus.

Rhaid arddangos gwerth gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn ffordd gyson i helpu i alinio amcanion sefydliadol strategol a chefnogi cynaliadwyedd a pharhad ar draws gwasanaethau

Rhaid cydnabod bod modelau a dulliau gweithredu newydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn galw am drawsnewid y ffordd yr ydym yn trefnu gwasanaethau, yn hytrach na dim ond darparu'r un gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn lleoliadau newydd, ac ehangu'r gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd, yn ogystal â datblygu sgiliau a'r ystod o wasanaethau a gynigir

Cytuno a threfnu adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd ar draws lleoliadau

Rhaid i waith cynllunio'r gweithlu fod yn barhaus ac ymatebol gan arweinwyr system, a chanolbwyntio ar ddatblygu rolau a defnyddio set sgiliau i gyflawni angen y boblogaeth sy'n cyflwyno eu hunain a blaenoriaethau rhanbarthol, yn hytrach nac ar deitlau swyddi a llwybrau gyrfa

Haenu adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn nhermau'r ymyriadau gofynnol a'r set sgiliau angenrheidiol

Rhaid i arweinwyr drefnu adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn nhermau'r ymyriadau gofynnol a'u haenu yn erbyn y set sgiliau angenrheidiol, a fydd yn sicrhau mwy o gydweithredu a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan wneud defnydd darbodus a gofalus o Broffesiynau Perthynol i Iechyd

Bydd y dull hwn hefyd yn datgelu lle mae bylchau yn y ddarpariaeth hon a lle mae angen adnoddau ychwanegol

Unffurfiaeth dull gweithredu gyda defnydd lleol i gefnogi gwaith cynllunio a chyflawni wedi'i arwain gan y clwstwr

Mae angen i arweinwyr system sicrhau dull unffurf gyda defnydd lleol o ran gwaith cynllunio a chyflawni wedi'i arwain gan y clwstwr. Gall y lefel uwch hon o gydweithredu gefnogi:

- Y cynnig Proffesiynau Perthynol i Iechyd gorau, o ansawdd uwch a gwasanaethau mwy cynaliadwy
- Lleihau amrywiaeth diangen mewn arfer a chanlyniadau clinigol
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd, gyda mynediad teg a chyfartal ar draws safleoedd
- Cynllunio'r gweithlu yn well

Fframwaith cyfathrebu a modelau tîm cytunedig

Gan gydnabod na fydd un model Tîm 'sy'n addas i bawb', mae'n rhaid i arweinwyr sicrhau:

- Mynediad uniongyrchol at ystod ehangach o Broffesiynau Perthynol i Iechyd a rolau Ymarferwyr Therapi Cynorthwyol medrus, fel rhan o gontinwmm Gofal Sylfaenol a Chymunedol
- Dull 'arbenigwr cyffredinol' gyda mwy o wybodaeth arbenigol yn y gweithlu ehangach, nid rolau arbenigol yn unig
- Defnyddio'r fframwaith Tîm Tetris sy'n cynnwys: Gwybodus, Medrus, Uwch ac Arbenigol y gellir eu mapio yn erbyn anghenion iechyd y boblogaeth leol

- Defnydd digidol i gefnogi cydweithrediad a chyfathrebu amlbroffesiwn ar sail unigol a grŵp

Model cyflogi a llywodraethu 'cyflogi i leoli' a argymhellir

Dylai arweinwyr system ddefnyddio model cyflogi a llywodraethu 'cyflogi i leoli'

Felly:

- Mynd i'r afael â risgiau cysylltiedig, er enghraifft absenoldeb arweinyddiaeth, datblygu llwybrau ar wahân, absenoldeb trefniadau llywodraethu clinigol a'r gostyngiad cysylltiedig yn ansawdd y cymorth gan Broffesiynau Perthynol i Iechyd a phrofiad y defnyddiwr
- Osgoi datblygu marchnad lafur ranedig a chystadleuol ar gyfer adnodd gweithlu gwerthfawr

Bydd hyn yn cefnogi gwaith cynllunio cydweithredol ar gyfer y gweithlu gyda phartneriaid, er mwyn datblygu gofynion Proffesiynau Perthynol i Iechyd tua'r dyfodol a rhagweld anghenion y boblogaeth

Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu model cyllido a chyflogi cynaliadwy system gyfan, wedi'i gynnal gan y bwrdd iechyd, awdurdod perthnasol a WAST, gyda gweithgarwch yn cael ei drefnu'n gydweithredol ar draws ardaloedd daearyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac alinio llifoedd cyllido drwy eu lens perthnasol hwy

Dysgu a datblygiad wedi'u hysbysu gan flaenoriaethau rhanbarth a gwaith clwstwr, wedi'u cefnogi gan Academiâu Gofal Sylfaenol / Canolfannau Hyfforddiant Lleol, gyda llwybrau hyfforddiant/addysg cyson a dibynadwy

Mae'n rhaid i arweinwyr system sefydlu cysylltiadau clir rhwng cynllunio, addysgu a hyfforddi'r gweithlu o ran datblygu capasiti a'r gallu i wneud y defnydd gorau o Broffesiynau Perthynol i Iechyd

Bydd hyn yn sicrhau cyflenwad o weithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd sy'n meddu ar y sgiliau, cymwyseddau, gwerthoedd ac ymddygiad cywir i gyflawni anghenion y boblogaeth leol

Bydd gweithio gydag Academiâu Gofal Sylfaenol / Canolfannau Hyfforddiant Lleol sy'n cwmpasu'r gweithlu cyfan yn gwella addysg ryngbroffesiynol a datblygiad tîm

I weld y papur llawn, ewch i: [**Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol | Strategic Programme for Primary Care**](#)

Croesewir pob ymholiad drwy flwch postio'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol: [**SPPC@wales.nhs.uk**](mailto:SPPC@wales.nhs.uk)